**PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Medi 2011**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Selwyn Williams (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Eurfryn G. Davies, W. I. Hughes, Eric Jones, Eric Roberts, Ieuan Williams, John Penri Williams. |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) (JHJ)<br>Rheolydd Cynllunio Busnes a Rhaglen (GM)<br>Rheolydd Gwasanaethau Adnoddau Dynol (CE)<br>Rheolydd Sgriwtini (BAS)<br>Swyddog Adnoddau Dynol (MD)<br>Swyddog Pwyllgor (JMA) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr D. R. Hughes, W. T. Hughes, R. Dylan Jones, Keith Roberts, Peter Rogers, Hefin Thomas, G. O. Parry MBE |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Comisiynydd M. Giannasi,<br>Y Cynghorydd K. P. Hughes (Aelod Portffolio) |

Draft

---

*Cyn dechrau ar raglen y cyfarfod, cyfeiriodd y Cadeirydd at lythyr yr oedd wedi'i anfon i'r Prif Weithredwr yn mynegi pryderon ynglŷn ag adroddiadau oedd yn cael eu derbyn yn hwyr a hynny'n golygu nad oedd gan aelodau ddigon o amser i ddarllen eu cynnwys cyn y cyfarfod. Darllenodd ymateb yr oedd wedi'i dderbyn gan y Prif Weithredwr oedd yn nodi ei fod yn gwerthfawrogi pryderon yr aelodau'n llawn ac y byddai'r mater hwn yn cael sylw yn y Grŵp Arweinyddiaeth Strategol. Ymddiheurodd y Prif Weithredwr i'r Pwyllgor.*

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Nid oedd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Swyddog nac Aelod.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2011.

**3 ADRODD YN ÔL AR BERFFORMIAD 2010/2011**

Gohiriwyd unrhyw ystyriaeth ar yr eitem oherwydd bod yr Aelodau yn ystyried nad oeddent wedi cael digon o amser i ystyried ei gynnwys. Cytunwyd y byddai cyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor hwn yn cael ei gynnal nos Fercher 5 Hydref i drafod y ddogfen, er y byddai'r adroddiad, mae'n debyg yn cael ei gymeradwyo yn y cyfarfod o'r Bwrdd Comisiynwyr y prynhawn hwnnw. Roedd yr adroddiad yn ddogfen gyfeirio hanfodol ac fe allai'r ymarfer hwn helpu'r Pwyllgor i ddeall manylion yr adroddiad yn well fel y gellid cael gwell dadansoddiad ar gyfer y broses fonitro perfformiad chwarterol, sydd yn un o ddyletswyddau sgriwtini.

## 4 ADRODD AM BERFFORMIAD CHWARTER 1

Cafwyd adroddiad gan y Rheolydd Perfformiad a Chynllunio Busnes ar y cynnydd wnaed ym mherfformiad y Cyngor yn erbyn y trefniadau a gynlluniwyd yng Nghynllun Busnes Corfforaethol 2011/12 y Cyngor ac i gadarnhau strwythur adrodd yn ôl newydd ar faterion oedd yn ymwneud â pherfformiad yn cynnwys risg a sylwadau ar liniaru risg. Roedd yr adroddiad yn nodi bod trefniadau Rheoli Perfformiad cadarn ac aeddfed yn un o'r meysydd fydd yn greiddiol i ffocws y Comisiynwyr yn 2011. Roedd gwybodaeth wedi'i chynnwys yn yr adroddiad ar Amcanion Gwella, Blaenoriaethau Strategol, Blaenoriaethau Fforddiadwy, y sefyllfa ariannol, adolygiadau / adroddiadau allanol ac archwiliadau, Cytundebau Canlyniad gan nodi hefyd unrhyw Gyfraith neu Ddeddfwriaeth newydd.

Mewn ymateb i sylwadau gan Aelodau, ymatebodd y Swyddogion a'r Comisiynydd Giannasi fel a ganlyn:-

- Roedd y Comisiynwyr o blaid sefydlu Bwrdd Gwella fyddai'n edrych ar welliant corfforaethol; roedd y cylch gorchwyl eto i'w gytuno; byddai'r Prif Weithredwr a'r Comisiynydd Byron Davies yn cytuno ar ddyddiad ar gyfer y cyfarfod cyntaf fis Hydref 2011.
- Byddai methiant ar ran adrannau i gydymffurfio gyda pholisïau corfforaethol yn cael eu cyfeirio yn y lle cyntaf i'r Bwrdd Comisiynwyr a byddai'n rhaid i'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol fynychu'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i egluro'r rhesymau dros beidio â chydymffurfio.
- Roedd y Prif Weithredwr yn cytuno bod unrhyw fethiant i gydymffurfio yn annerbyniol ac roedd yn cydnabod yr angen i rymuso swyddogion i wneud y gwaith ac y byddent yn cael eu cyfrif yn atebol ac yn gyfrifol. Ychwanegodd y bydd ffordd newydd o reoli perfformiad yn nodi galluoedd Swyddogion yn cael ei chyflwyno fis Hydref a bydd yn berthnasol i holl adrannau'r Cyngor. Wedi hynny, byddai unrhyw fethiant i gydymffurfio yn arwain at weithdrefnau disgyblu.
- Cadarnhaodd y Swyddog y bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar gyfer aelodau ar y system Ffynnon yn dilyn ei chyflwyno i'r staff ac roedd y system Ffynnon gyfredol yn nodi targedau ac yn ymestyn / datblygu Swyddogion ac yn ehangu'r ffiniau.
- Rhoddwyd cadarnhad bod gwaith ar y gweill i ddatblygu proses gynllunio busnes gyda chysylltiadau clir i'r broses gyllidebol – adroddiad ar y mater hwn i'w gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor hwn yn y dyfodol.
- Mae trafodaethau'n parhau gyda'r Archwilwyr Allanol ynglŷn â risg - byddai cyfarfod yn cael ei gynnal gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth ac adroddiad yn cael ei baratoi gan yr Adain Archwilio Allanol a'i gyflwyno i'r Grŵp Arweinyddiaeth Strategol i'w drafod ac wedi hynny byddai'r adroddiad ar gael i Aelodau'r Pwyllgor hwn.
- Cydnabyddwyd bod Llywodraethu Corfforaethol yn wendid ac y gall y system sy'n esblygu fod yn un digon rhwystredig ar brydiau. Roedd yn cael ei gydnabod bod gormod o fanylder yn y ddogfen a gyflwynwyd i Aelodau ac fe fydd yn rhaid gwella'r ffordd o gyflwyno'r data. Roedd yn cael ei gydnabod hefyd nad oes yna eglurder pwrpas clir ar hyn o bryd ac y bydd yn rhaid i'r dangosyddion perfformiad fod yn seiliedig ar ganlyniadau ac ar amcanion. Dywedodd y Comisiynydd Giannasi mai'r nod oedd creu dogfen gynllunio busnes corfforaethol cryno a system berfformiad effeithiol ac fe hoffai weld hynny'n digwydd dros y 12 mis nesaf - roedd yn credu bod y Cyngor yn symud i'r cyfeiriad iawn gyda chyflawni'r amcanion hynny.
- Roedd y Rheolwr Sgriwtini yn croesawu'r sylwadau wnaed yn y cyfarfod a phwysleisiodd yr angen i ganolbwyntio ar flaenoriaethau yn y rhaglen waith i'r dyfodol er mwyn gyrru Gwelliant ac er mwyn gallu cymryd rhan weithredol trwy gyn-sgriwtineiddio.

Draft

**PENDERFYNWYD:-**

**(i)** **cymeradwyo'r chwe argymhelliad roddwyd ymlaen i'r cyfarfod o'r Bwrdd Comisiynwyr ar 5 Medi;**

**(ii)** **y dylid ychwanegu mesurau ar sut i ddelio gyda diffyg cydymffurfio â pholisïau corfforaethol at yr argymhellion hynny;**

**(iii)** **mewn perthynas ag argymhelliad 4 yr adroddiad oedd yn cyfeirio at Ddeg Blaenoriaeth y Comisiynwyr, byddai'r Pwyllgor yn hoffi derbyn rhybudd o'r rhain yn Sgriwtini mor fuan ag sy'n bosibl;**

**(iv) sylwadau cyffredinol Sgriwtini ar yr adroddiad oedd bod ei fformat yn dda ond y gallai materion bychan ei wneud yn haws i'w ddeall; A) nid yw printio lliw yn dangos yn y copïau ar y rhaglen ac felly dylid defnyddio prif lythrennau C, O & G (R, A &G) i gynrychioli'r lliw, yn y blychau gwella. B) rhifo'r paragraffau a'r tudalennau i'w gwneud yn haws cyfeirio atynt yn y drafodaeth yn y Pwyllgor.**

## 5 ABSENOLDEB SALWCH YR AWDURDOD EBRILL – GORFFENNAF 2011

Cyflwynwyd adroddiad gan Swyddog Cyswllt a Chefnogaeth Sgriwtini ar gais y Swyddog Monitro. Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion o absenoldeb salwch yr Awdurdod am y cyfnod Ebrill-Gorffennaf 2011 wedi'i ddadansoddi ar draws y gwahanol adrannau ac roedd yr aelodau'n nodi i'r adroddiad gael ei drafod yn y Grŵp Arweinyddiaeth Strategol ar 5 Medi 2011.

Dywedodd Rheolydd y Gwasanaethau Adnoddau Dynol i'r pwyslais gael ei roi ar sut i gyflawni'r ystadegyn Swydd Llawn Amser Cyfatebol. Roedd y system Personél a TG/Cyflogres oedd wedi'i gosod yn ddiweddar yn un uchelgeisiol iawn ac yn un yr oedd angen llawer o amser ynglŷn â hi. Roedd yn cydnabod bod y system wedi creu problemau mewn rhai meysydd a bod yr Adran TG ar hyn o bryd yn ceisio datrys rhai problemau y daethpwyd ar eu traws.

Fodd bynnag, roedd yn gallu cadarnhau bod chwarter cyntaf yr Amser Llawn Cyfartaleddog wedi'i anfon i'r Grŵp Arweinyddiaeth Strategol ac y mae'n debyg y byddai'r Pwyllgor Sgriwtini yn dymuno gweld y Penaethiaid Gwasanaeth yn rheolaidd os yw'r targedau'n wael. Y targed a osodwyd oedd 9 diwrnod. Ar hyn o bryd roedd dwy Adran oedd ymhell uwchben y targed hwn ac roedd hynny'n achosi pryderu. Ychwanegodd y Swyddog y byddai Contract Iechyd Galwedigaethol newydd gyda Chyngor Sir Gwynedd yn dechrau ar 1 Hydref ac roedd ganddi bob hyder yn y trefniadau newydd. Byddai lefelau salwch yn cael eu targedu fel cynllun peilot, yn bennaf gyda'r Uned Ddarparu yn yr Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddechrau. Roedd trafodaethau wedi'u cynnal gyda'r Undebau ac maent yn hollol gefnogol i'r cynnig cyn belled ag y bo unigolion yn cael eu trin yn briodol ac yn sensitif. Bydd Nyrs arbenigol yn gweithio o Swyddfeydd y Cyngor am ddau ddiwrnod bob wythnos ac fe fyddai hyn, fe obeithir, yn helpu i sicrhau dychweliad mwy buan yn ôl i'r gwaith. Roedd y contract gyda Chyngor Sir Gwynedd am gyfnod dechreuol o 12 mis ac ni fyddai'n costio mwy na'r contract blaenorol ond roedd arbediad o £35k ar gyfer costau cael nyrs amser llawn wedi'u gwneud. Dywedodd y byddai'r Cynllun Galw Gofal yn darparu cefnogaeth i'r Uned Darparwr i gysylltu gyda phob aelod staff oedd yn galw i mewn i'r gwaith i ddweud ei f/bod yn sâl. Ychwanegodd y Swyddog mai'r gobaith i'r dyfodol oedd y byddai'r data am lefel salwch ar gael ar sail gwasanaeth unigol.

Dywedodd y Comisiynydd Giannasi y byddai'r lefelau absenoldeb yn cael eu dylanwadu gan y nifer o staff oedd yn cael eu cyflogi o fewn unrhyw adran arbennig. Roedd yn credu y byddai nodi presenoldeb yn hytrach nag absenoldeb yn ddefnyddiol. Dywedodd bod rôl Iechyd Galwedigaethol yn greiddiol ynghyd â rôl hanfodol y rheolwyr. Byddai'n hoffi gweld bod goblygiadau cost yn cael eu cynnwys yn y data oedd yn cael ei ddarparu ar gyfer sgriwtini ac y dylai'r targed yn y pen draw fod yn un o ostwng costau h.y. mewn enghreifftiau arbennig o absenoldeb lle gellid cyflogi person llanw i wneud gwaith y person oedd yn absennol o'r gwaith.

**PENDERFYNWYD nodi'r cynnydd a wnaed ac y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn ymhen 6 mis gan y Rheolwr Gwasanaethau Adnoddau Dynol, gyda hynny'n caniatáu ychydig o amser i'r holl newidiadau gwelliant ar gyfer rheoli salwch fod wedi cael amser i weithio.**

## 6 RHAGLEN WAITH YMLAEN Y PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

Gafodd Rhaglen Waith Ymlaen y Pwyllgor ei hadolygu a chytunwyd ar yr eitemau i'w cynnwys ar gyfer y cyfarfod nesaf gyda dau ohonynt yn rhai ariannol ac yn rhai oedd wedi'u hoedi cyn hyn. Cytunwyd hefyd i ohirio'r adolygiad o'r Cynllun Iaith Gymraeg er mwyn caniatáu digon o amser i

Draft

drafod yr adroddiadau ariannol.  Nodwyd y dylid rhoi adroddiad diweddaru ynglŷn â'r gofrestr risg gorfforaethol ar raglen cyfarfod mis Rhagfyr.  Gofynnodd y Cynghorydd Ieuan Williams a oedd yn bosibl i'r Adolygiad Cymheriaid ar yr Adran TG fod ar gael.  Cytunodd y Rheolydd Sgriwtini i anfon copi gan ei bod bellach yn ddogfen gyhoeddus.  Gan ddwyn mewn cof y pwysau oedd ar y Rhaglen Waith Ymlaen fe ofynnodd y Rheolwr Sgriwtini a allai ddadansoddi'r adroddiad yn gyntaf a darparu rhesymau ysgrifenedig, trwy'r Cadeirydd, yn dweud paham y dylai'r Pwyllgor adolygu'r adroddiad.

**Y CYNGHORYDD SELWYN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**

Drafft